# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 1

## BINGO BETH AM GYSYLLTU

**Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu disgyblion i wneud cysylltiadau newydd gyda'u cyd-ddisgyblion.**

- Gwnewch ychydig o gardiau 'bingo' sy'n cynnwys chwe sgwâr (defnyddiwch ein templed ar y dudalen nesaf).
- Mae pob sgwâr yn cynnwys her i'r disgyblion ddod o hyd i ddisgybl arall sydd, er enghraifft, yn hoffi pizza, gyda chath, yn mwynhau nofio, yn chwarae offeryn cerddorol, yn hoffi pêl-droed ac ati.
- Gadewch i'r disgyblion symud o gwmpas yr ystafell, yn siarad â'i gilydd i weld a allant gysylltu dros bethau sydd ganddynt yn gyffredin. Pan fydd y disgybl yn dod o hyd i rywun sydd â chath (er enghraifft) bydd angen iddo/iddi ysgrifennu enw'r disgybl hwnnw yn y sgwâr ac yna symud ymlaen i siarad â disgyblion eraill i gael enwau ar gyfer y sgwariau eraill. Daw'r gweithgaredd i ben pan fydd yr holl ddisgyblion wedi nodi enw cyd-ddisgybl yn o leiaf pump o'u sgwariau.
- Siaradwch â'r disgyblion am sut aeth y gweithgaredd - a wnaethant ei fwynhau? A oeddant yn teimlo'n lletchwith? Beth wnaethant ei ddysgu am eu hunain? Beth wnaethant ei ddysgu am eu cyd-ddisgyblion? A oeddynt yn sylweddoli bod ganddynt gysylltiadau â'u holl gyd-ddisgyblion nid y rhai maen nhw'n ffrindiau â nhw yn unig? Trafodwch eu tebygrwydd a gwahaniaethau - a sut allant gysylltu, er gwaethaf eu gwahaniaethau.

### GWEITHGAREDDAU YMESTYN DEWISOL:

- Gwnewch yr un gweithgaredd gyda dosbarthiadau eraill - i ddod o hyd i gysylltiadau newydd!
- Creu gêm bingo cysylltiadau yn canolbwyntio ar nodweddion a gwerthoedd e.e. 'Rwy'n hoffi helpu pobl', 'Rwy'n hoffi rhoi cynnig ar bethau newydd', 'Mae'n well gen i dreulio amser gydag un ffrind yn unig', 'Rwy'n teimlo'n anghyfforddus mewn grwpiau mawr', 'Rwy'n dda am wrando', 'Weithiau rwy'n teimlo'n unig yn yr ysgol' ac ati. Defnyddiwch ein templed gwag i greu eich gêm bingo cysylltiadau eich hun - neu gofynnwch i'r plant greu un!

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 7-11 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**



# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

## BINGO BETH AM GYSYLLTU?

Allwch chi ddod o hyd i rywun sydd?

| | | |
|---|---|---|
| CHWAER | YN MWYNHAU DARLLEN | YN HOFFI P L-DROED |
| YN GALLU CHWARAE OFFERYN CERDDOROL | YN HOFFI PIZZA | AG ANIFAIL ANWES |


## BINGO BETH AM GYSYLLTU?

Allwch chi ddod o hyd i rywun sydd?

| | | |
|---|---|---|
| CHWAER | YN MWYNHAU DARLLEN | YN HOFFI P L-DROED |
| YN GALLU CHWARAE OFFERYN CERDDOROL | YN HOFFI PIZZA | AG ANIFAIL ANWES |

## BINGO BETH AM GYSYLLTU?

**Allwch chi ddod o hyd i rywun sydd?**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |


## BINGO BETH AM GYSYLLTU?

**Allwch chi ddod o hyd i rywun sydd?**


| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |